



Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Cynrychiolaeth Sifil CIVMODD1 - Y Canllaw Sut i lenwi Ffurflen Aseu Ariannol CIVMODD 1

Fersiwn:	Dyddiad cyhoeddi :	Dyddiad adolygu diwethaf:	Perchennog:
14	3 Awst 2023	3 Awst 2023	ACC Cyfreithiol

Hanes Fersiynau

Fersiwn:	Dyddiad:	Rheswm:
14	Awst 2023	Newidiadau i'r Ffurflen – Cam 1, Adolygiad Prawf Modd
13	Ionawr 2021	Newidiadau Deddfwriaeth – Diystyrion a gwaredu cap morgais.
12	Awst 2014	Diweddariad geirfa gofal plant.

Cynnwys

1. Golwg Gyffredinol
2. Eich Manylion Chi a'ch Partner
3. Incwm - arian arall
4. Cyfalaf ac asedau eraill
5. Gwybodaeth ychwanegol
6. Tystiolaeth o'ch amgylchiadau sydd wedi eu datgan
7. Crynodeb - Arweiniad Cam-wrth-Gam ar Asesiad

1. Golwg Gyffredinol

Pryd a sut i lenwi ffurflen CIVMODD1 - Ffurflen Asesiad Ariannol.

Pryd y mae'n rhaid i mi lenwi Ffurflen CIVMODD1?

- Mae angen ichi lenwi CIVMODD1 os ydych chi'n byw yn y Deyrnas Unedig ac (i) dros 16 oed ac (ii) nad ydych yn cael un o'r budd-daliadau pasport (gweler yr ail bwynt bwled isod).
- Budd-daliadau pasport: Os ydych chi'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Gwarant neu'r Credyd Cynhwysol mae angen ichi lenwi CIVMODD2
- Os ydych yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig rhaid i chi lenwi ffurflen CIVMODD3
- Os ydych chi'n cael Cymorth Cyfreithiol eisoes a bod eich amgylchiadau ariannol wedi newid, llenwch ffurflen CIVMODD1 a'i dychwelyd i swyddfa ranbarth yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Os ydych chi neu'ch partner yn cael un o'r budd-daliadau pasport yn awr, peidiwch â llenwi ffurflen CIVMODD1. Llenwch ffurflen CIVMODD2 yn lle hynny

Sut ydw i'n llenwi Ffurflen CIVMODD1

- Trefnir y llyfryn hwn i'ch helpu i llenwi Ffurflen CIVMODD1
- Mae'n bwysig ateb pob cwestiwn ar y ffurflen, oni bai bod y cyfarwyddiadau'n dweud wrthyfych y gallwch anwybyddu'r cwestiwn
- Os na fyddwch chi'n ateb pob cwestiwn perthnasol, ni allwn roi Cymorth Cyfreithiol ichi. Byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch ichi ei llenwi'n iawn. Cofiwch, ni all eich cyfreithiwr wneud dim gwaith nes y caniateir Cymorth Cyfreithiol ichi.
- Peidiwch â chroesi allan, newid nag ysgrifennu 'dim yn gymwys' i unrhyw un o'r cwestiynau os gwelwch yn dda
- **Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth a rowch chi inni'n gywir. Os byddwch chi'n rhoi gwybodaeth inni nad yw'n wir, neu os na fyddwch chi wedi sôn am ryw elfen o'ch amgylchiadau ariannol, mae'n bosibl y caiff unrhyw Gymorth Cyfreithiol a roddwyd ichi ei ddiddymu h.y. ei ganslo, a bydd gofyn ichi ad-dalu holl gostau eich cyfreithiwr.**

Mae'n ddyletswydd arnoch i ddweud wrthym hefyd os bydd eich amgylchiadau ariannol yn newid. Os bydd eich amgylchiadau'n newid a chithau heb ddweud wrthym, mae'n bosibl y caiff unrhyw Gymorth Cyfreithiol a roddwyd ichi ei ddiddymu, h.y. ei ganslo, a bydd gofyn ichi dalu yn ôl holl gostau eich cyfreithiwr

Os rhoddir Cymorth Cyfreithiol ichi, byddwn yn holi i wneud yn siŵr nad yw'ch amgylchiadau wedi newid.

2. Eich Manylion Chi a'ch Partner

A1 Rhaid i ni wybod ai'ch partner yw'r gwrthwynebydd

- Os byddwch chi a'ch partner yn gwahanu oherwydd bod y berthynas wedi chwalu a bod y gwahanu hwnnw'n debygol o fod yn barhaol, neu os eich partner yw'ch gwrthwynebydd yn yr achos rydych chi'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol ar ei gyfer, bydd angen inni gael gwybod am hynny
- Os eich partner yw'r gwrthwynebydd yn yr achos hwn, llenwch y ffurflen gan roi manylion amdanoch chi'ch hun, peidiwch â chynnwys manylion eich partner

Amdanoch chi

A2 Manylion ariannol pwy i'w cynnwys

- Os oes gennych bartner ac nad ydych wedi gwahanu oherwydd bod y berthynas wedi chwalu a'r gwahanu hwnnw'n debygol o fod yn barhaol, atebwch bob rhan o'r adran hon, oherwydd bydd modd ariannol eich partner

yn cael ei gynnwys yn eich asesiad. Os nad oes gennych bartner, rhowch eich manylion chi'n unig

- Ystyr partner yw eich priod neu bartner drwy bartneriaeth sifil, neu rywun (gan gynnwys rhywun o'r un rhyw) y byddwch chi fel rheol yn byw gydag ef/hi fel cwpl. Mae hyn yn cynnwys os ydych yn byw ar wahân oherwydd, er enghraifft, salwch, carchariad neu weithio i ffwrdd (ac nid oherwydd bod y berthynas wedi dod i ben). Os ydych wedi gwahanu oddi wrth eich partner ac yn byw gyda rhywun arall, rhowch fanylion am y person yr ydych yn byw gydag o erbyn hyn os gwelwch yn dda.

Incwm - cyflogaeth

A3 Rhaid i ni wybod am eich cyflogaeth

- Mae angen cael gwybod arnom faint a enillwch, felly mae'n rhaid i chi atodi slipiau cyflog neu ffurflen L17 i'r CIVMODD1 ar gyfer eich cyflogwyr chi a rhai eich partner.

A4 Mae angen gwybod faint ydych chi'n ei dalu oherwydd eich gwaith ac am ofal plant

- Rydym yn caniatáu costau rhesymol y mae'n rhaid i chi eu gwario pan ydych chi a'ch partner yn absennol o'r cartref ar gyfer eich gwaith (gweithiwr cyflogedig neu hunan gyflogedig) neu gwrs astudio; ni roddir lwfans i chi (neu eich partner os yw'n berthnasol) os ydych yn rhydd i ofalu am eich plant
- **Gweithwyr cyflogedig yn unig:** Mae lwfans safonol am unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith e.e. teithio'n ôl a blaen i'r gwaith.

A5 Os ydych yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd, rhaid i ni wybod pryd y byddwch yn dychwelyd i'r gwaith

- Os nad ydych yn gweithio oherwydd salwch, fe all eich bod yn gymwys i dderbyn tâl salwch statudol, budd-dal analluogrwydd neu Lwfans Cyflogaeth a Chynnal ar sail Cyfraniadau, y mae'n rhaid i ni eu hystyried.
- Rhaid i chi roi eich amcangyfrif gorau i ni o ran pryd y byddwch yn dychwelyd i'r gwaith. Os nad ydych yn dweud wrthym a'ch bod wedi bod yn absennol o'r gwaith am fwy na chwe wythnos, byddwn yn cymryd yn ganiataol y byddwch yn absennol o'r gwaith am uchafswm o fis ac, felly, byddwn yn asesu eich incwm misol fel eich tâl / cyflog arferol..

Incwm - budd-daliadau o fathau eraill

A6 Beth yw budd-daliadau o fathau eraill?

Budd-daliad o fath arall yw unrhyw beth a gewch chi gan eich cyflogwr nad yw'n arian. Er enghraifft:

- Car cwmni
- Gofal plant am ddim
- Petrol am Ddim

- Talebau Gofal Plant
- Talebau Cinio
- Llety
- Morgeisi/benthyciadau cymorthdaledig
- Yswiriant Iechyd

Atodwch ffurflen dreth P11D (buddion mewn nwyddau).

Incwm - budd-daliadau'r wladwriaeth

A7 Rhaid i ni wybod am fudd-daliadau'r wladwriaeth rydych chi neu'ch partner yn eu cael

- Mae'r rhan fwyaf o fudd-daliadau'r wladwriaeth yn cyfrif fel incwm yn ein hasesiad
- Os ydych chi'n cael un o'r budd-daliadau pasport, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar incwm, Gwarant Credyd neu'r Credyd Cynhwysol, byddwch yn ariannol gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol ar incwm ond bydd rhaid datgelu eich cyfalaf. Ni ddylech lenwi Ffurflen CIVMODD1. Fe ddylai eich cyfreithiwr roi Ffurflen CIVMODD2 ichi i'w llenwi
- Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol, mae angen arnoch roi gwybod amdanynt i ni, ond caiff y budd-daliadau hyn eu hanwybyddu wrth i ni gyfrifo eich incwm.
 - Lwfans Gweini
 - Lwfans Gweini Cyson
 - Lwfans Gofalwyr
 - Lwfans Anabledd Difrifol
 - Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol
 - Taliadau Cynllun Iawndal Windrush ag unrhyw daliad cysylltiedig
 - Taliad Difrod Brechlyn
 - Taliadau ar Gyfrif Budd-daliadau a Chyllidebau
 - Grant Byw yn Annibynnol Cymru
 - Bensiwn Rhyfel (Unrhyw)
 - Lwfans Byw i'r Anabl
 - Taliadau Annibyniaeth Bersonol
 - Taliad o'r Gronfa Gymdeithasol
 - Taliad gan Gronfa Gofal yn y Gymuned
 - Taliad Trsoglwyddo Ymlaen Llaw
 - Credyd Cymhwysol
 - Taliadau Cefnogaeth (neu unrhyw gynllun) Gwaed Heintiedig
 - Taliadau Ymddiriedolaeth Clefyd Amrwylio Creutzfeldt-Jakob ("vCJD")

- Os ydych chi'n derbyn unrhyw un o'r taliadau isod, bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym ond gallem ni benderfynny eu hanwybyddu:
 - Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol
 - Cronfa We Love Manchester
 - Taliadau'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Genedlaethol
 - Taliadau a wnaed i gefnogi Dioddefwyr Tân Tŵr Grenfell
 - Cronfa Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain

Hunangyflogaeth neu swyddi cyfarwyddwyr

A8 Rhaid i ni wybod os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n gyfarwyddwr cwmni

- Os ydych chi'n gyfarwyddwr cwmni, bydd arnom angen Ffurflen CIVMODD1C a chyfrifon pob cwmni rydych yn gyfarwyddwr arnynt..
- Os ydych chi'n hunangyflogedig neu mewn partneriaeth, fel arfer, byddwn yn seilio ein hasesiad ar eich elw net yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf. Ystyr elw net yw elw ar ôl didynnu'r costau y mae eu hangen i ennill incwm i'r busnes ond cyn i dreth gael ei didynnu. Felly, bydd angen i chi lenwi Ffurflen CIVMODD1A a/neu CIVMODD1B. Ceisir gwybodaeth ychwanegol ar y ffurflenni hyn, a dylech ddarllen y rhain yn ofalus gan eu bod yn dweud wrthyich pa ddogfennau / ffurflenni eraill i'w hanfon gyda'ch cais.
- Os ydych chi'n is-gontractwr, mae arnom angen eich ffurflen SC60 ar gyfer y 6 mis diwethaf hefyd.

3. Incwm - arian arall

B1 Rydym yn cyfrif cynhaliaeth a delir i chi yn incwm

- Byddwn yn cymryd yn ganiataol bod unrhyw gynhaliaeth a delir i chi yn ddi-dreth. Os ydych yn talu treth ar daliadau cynhaliaeth, rhowch wybod i ni faint os gwelwch yn dda yn yr adran Gwybodaeth Ychwanegol ar dudalen 17 CIVMODD1.

B2 Arian o unrhyw le arall

- Ystyr hyn, yn llythrennol, yw unrhyw arian arall a dderbynnir gennych chi neu'ch partner

Gall y rhain fod yn bethau fel:

- Rhent gan denantiaid a lletywyr. (Os ydych yn datgan yr arian hwn i Gyllid a Thollau EM, ystyrir bod rhan o'ch incwm yn gysylltiedig â busnes. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflenni perthnasol (gweler tudalennau 6 a 7))
- Grantiau/benthyciadau addysgiadol.
- Arian gan ffrindiau neu berthnasau.
- Taliadau diswyddo.
- Pensiynau / Blwydd-daliadau

B3 Yr hyn a olygwn gan unrhyw un sy'n darparu cymorth i chi neu'ch teulu

- Weithiau mae pobl yn derbyn cymorth gan bobl eraill nad yw'n gymorth ariannol. Efallai y bydd rhywun yn talu eich biliau neu'n gadael i chi ddefnyddio eu car am ddim. Gallai hyn fod yn berson, yn gwmni, yn sefydliad gwirfoddol neu'n gronfa ymddiriedolaeth.
- Os ydych yn derbyn arian neu gefnogaeth gan gronfa ymddiriedolaeth rhaid i chi anfon copi o'r ddogfen ymddiriedolaeth, wedi'i hatodi at Ffurflen CIVMODD1. Os nad ydych wedi atodi'r wybodaeth hon, byddwn yn gofyn amdani a bydd hynny'n golygu oedi wrth brosesu'ch cais am Gymorth Cyfreithiol.
- Os yw'r ffigur rydych yn debygol o'i gael eleni yn wahanol i'r un a gawsoch y llynedd, dywedwch wrthym faint a pham y mae wedi newid yn yr adran Gwybodaeth Ychwanegol ar dudalen 17 o'r CIVMODD1.

Pobl eraill

B4 Rhaid i ni wybod am y bobl sy'n byw gyda chi

- Gallwn ganiatáu lwfansau o'ch incwm at gost darparu ar gyfer eich partner, plant neu unrhyw berthnasau sy'n dibynnu arnoch..
- Byddwn yn tybio eich bod yn derbyn budd-dal plant ar gyfer plant dan 16 neu dan 20 ac mewn addysg lawn amser, ond nid addysg uwch.
- Mae angen arnom ni wybod os yw eich plant yn cael grant tuag at eu haddysg gan y bydd hyn yn effeithio ar y lwfans a roddwn.
- Efallai bydd angen cyfraniad gan bobl eraill a fydd hefyd yn elwa o'ch achos cyfreithiol

B5 Rhaid i ni wybod a ydych chi neu eich partner yn talu unrhyw gostau cynhaliaeth

- Gallwn ganiatáu lwfans am unrhyw gostau cynhaliaeth rydych yn eu talu i blentyn neu gynbartner, cyhyd â'n bod yn sicr eich bod yn gwneud taliadau rheolaidd o hyd.

Costau Byw - Costau Tai

B6 Rhaid i ni wybod am ble rydych yn byw

- Os ydych chi'n berchen ar eich cartref eich hun:
 - Ni ystyrir y £100,000 cyntaf o ecwiti eich prif gartref fel cyfalaf gwario.
 - Mae ecwiti yn golygu gwerth gwerthu eich cartref llai unrhyw forgais sy'n ddyledus (hyd at gyfanswm o £100,000). Byddwn yn cymharu eich prisiad chi o'r ty â'n prisiad annibynnol ni, a gallwn gymryd y ffigur uchaf.
 - O ran eich incwm, rydym yn rhoi ystyriaeth i ad-daliadau am unrhyw forgais neu fenthyciad sydd wedi ei warantu yn erbyn eich prif gartref, yn cynnwys taliadau am unrhyw bolisi gwaddol sy'n gysylltiedig â'ch morgais.
- Os ydych chi'n rhentu eich cartref, caniatawn lwfans rhesymol o'ch incwm ar gyfer unrhyw rent a delir gennych.
- Os ydych chi'n byw gartref gyda'ch rhieni a'ch bod yn talu rhent i'ch rhieni, caniatawn lwfans ar gyfer hyn.
- Os nad oes gennych unrhyw ddibynyddion yn byw gyda chi, mae uchafswm y byddwn yn ei ganiatáu yn yr asesiad.

- Os na fyddwch yn rhoi eich cyfeiriad inni ac yn ateb yr holl gwestiynau a ofynnir i chi, byddwn yn anfon y ffurflen hon yn ôl atoch a bydd oedi wrth brosesu'ch cais am Gymorth Cyfreithiol.

4. Cyfalaf ac asedau eraill

C1 Pa fath o gyfalaf sy'n cael ei gyfrif gennym

- Mae angen arnom ni wybod am bob math o gyfalaf yr ydych chi neu'ch partner yn berchen arnynt.

Cofiwch atodi datganiadau banc/ariannol ar gyfer pob cyfrif sydd gennych chi neu'ch partner.

C2 Cydgyfrifon

- Mae angen arnom ni wybod am bob math o gyfalaf yr ydych chi neu'ch partner yn berchen arnynt.
- Os nad yw modd eich partner yn cael ei asesu (ee os ydych chi wedi gwahanu) byddwn yn cynnwys y cyfanswm yn y cyfrif o hyd, oni bai eich bod yn darparu tystiolaeth nad oes gennych fynediad at y cyfanswm cyfan.

C3 Buddsoddiadau cyfnod penodol

- Tybiwn y gallwch sylweddu gwerth cyfalaf presennol y buddsoddiad. Os nad yw hyn yn wir, darparwch ddogfennau sy'n dangos telerau ac amodau'r buddsoddiad.

C4 Unrhyw eiddo arall rydych chi'n berchen arno

- Os ydych yn berchen ar unrhyw eiddo arall byddwn yn ystyried unrhyw ecwiti fel cyfalaf.

C5 Buddiannau mewn ymddiriedolaeth

- Cyfrifir buddiant mewn ymddiriedolaeth fel cyfalaf ac mae arnom angen copi o'r weithred ymddiriedolaeth i brisio'r buddiant hwnnw.

C6 Ceir

- Cynhwyswn werth ceir fel cyfalaf mewn rhai amgylchiadau. Os gwnawn hynny yn eich achos chi, cewch wybod pan roddir gwybod i chi am ganlyniad eich asesiad.

C7 Buddiannau mewn ymddiriedolaeth

- Cyfrifir buddiant mewn ymddiriedolaeth fel cyfalaf ac mae arnom angen copi o'r weithred ymddiriedolaeth i brisio'r buddiant hwnnw.

Ynglyn â'ch achos cyfreithiol - am beth mae'r anghydfod

C8 Rhaid i ni wybod yr hyn yr ydych chi neu eich gwrthwynebydd y dadlau yn ei gylch

- Nid ydym yn cyfrif gwerth unrhyw asedau sy'n destun anghydfod yn yr achos lle nad yw eich buddiant yn yr asedau hyn yn rhagori ar £100,000, felly os yw eich gwrthwynebydd neu chi'n dadlau ynghylch perchnogaeth rhywbeth personol, rhaid i ni wybod amdano.

5. Gwybodaeth ychwanegol

D1 Gwybodaeth ychwanegol

- Os ydych yn ymwybodol o ddigwyddiad sydd ar ddigwydd yn y 12 mis nesaf a fydd yn effeithio ar eich incwm neu gyfalaf, dylech ddweud wrthym fel y gallwn adolygu eich amgylchiadau yr adeg honno yn ôl y gofyn.
- Dylech ddefnyddio'r adran hon i ddweud wrthym am unrhyw beth yn eich amgylchiadau na chynhwyswyd yn rhywle arall ar Ffurflen CIVMODD1.
- Os byddwch yn talu cyfraniad o'ch incwm tuag at Gymorth Cyfreithiol Troseddol, rhowch y manylion yn yr adran hon.

Gwneud cais ar ran rhywun arall

D2 Rhaid i ni wybod a ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall

- Os ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun arall, mae angen arnom amgylchiadau ariannol y person yr ydych yn gwneud cais ar ei ran.
- Rhaid i ni wybod eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn fel y gallwn gysylltu â chi i ofyn cwestiynau yn ôl y gofyn.

Gwybodaeth ychwanegol

- Rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen CIVMODD1 at eich cyfreithwyr. Byddant yn ei hanfon atom gyda'ch cais. (Gwiriwch eich bod wedi atodi pob dogfen arall y gofynnem amdanynt at ffurflen CIVMODD1).
- Rhaid anfon atom y ffurflen a'r holl ddogfennau eraill mae eu hangen arnom cyn pen dau fis o'r dyddiad y llofnodir y ffurflen. Fel arall, byddwn yn gwrthod y cais.
- Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthyfych a ydym yn barod i roi Cymorth Cyfreithiol ichi, i egluro sut mae'r asesiad wedi'i wneud ac i ddweud a fydd yn rhaid ichi dalu cyfraniad at gost eich achos.

6. Tystiolaeth o'ch amgylchiadau sydd wedi eu datgan

E1 Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi'r hyn yr ydych wedi ei ddweud wrthym

- Ar dudalen 24 - o'r ffurflen ceir rhestr wirio i'ch helpu i adnabod pa ddogfennau y mae angen i chi eu cynnwys gyda'ch cais.
- Ceir hefyd nodiadau mewn llythrennau bras drwy'r ffurflen pan fo cwestiwn yn arwain at angen am dystiolaeth.
- Os na fyddwch yn cyflwyno'r dystiolaeth, byddwn naill ai'n gwrthod eich cais neu ddim yn ystyried y gwariant na ddarparwyd tystiolaeth ar ei gyfer. Er enghraifft, os byddwch yn datgan eich bod yn talu rhent ond nad ydych yn rhoi tystiolaeth o hyn, ni fyddwn yn rhoi lwfans am rent i chi yn eich asesiad.

7. Crynodeb - Arweiniad Cam-wrth-Gam ar Aseiad

Cam 1

Os oes gennych bartner nad ydych wedi gwahanu oddi wrtho ac nad yw'n wrthwynebydd i chi yn yr achos (diddordeb gwrthwynebol), byddwn yn agregu'ch moddion h.y. yn cynnwys adnoddau'r ddau ohonoch yn yr asesiad.

Cam 2

Os ydych chi a'ch partner yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar Incwm, Gwarant Credyd neu'r Credyd Cynhwysol byddwch yn bodloni'r prawf incwm yn awtomatig, ond bydd angen asesu'ch cyfalaf o hyd (Cam 5 isod). Gelwir y budd-daliadau hyn hefyd yn 'fudd-daliadau pasportio' (Cyflwynwch ffurflen CIVMODD2, ac nid CIVMODD1).

Cam 3

Os nad ydych yn derbyn budd-dal pasportio byddwn yn asesu cyfanswm eich incwm yn cynnwys incwm eich partner. Os asesir fod eich incwm gros yn uwch na'r terfyn incwm gros ni fyddwch yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol a bydd y cais yn cael ei wrthod heb wneud unrhyw gyfrifo pellach. Bydd rhai budd-daliadau (a nodir yn nodyn A7) yn cael eu diystyru ac mae nenfwd incwm gros uwch yn berthnasol i deuluoedd gyda mwy na 4 o blant dibynnol.

Cam 4

Os yw eich incwm gros o fewn y terfyn, byddwn yn asesu incwm gwario ar ôl gwneud didyniadau (pan fo'n berthnasol) ar gyfer y canlynol: treth incwm; yswiriant cenedlaethol, taliadau cynnal i gyn bartner a phlant, costau tai a chostau gofal plant (yn ystod yr oriau nad ydych yn y cartref ac yn gweithio). Rhoddir ystyriaethau penodol ar gyfer dibynyddion a threuliau cyflogaeth. Rhoddir ystyriaeth hefyd ar

gyfer cyfraniadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol. Os yw eich incwm gwario yn uwch na therfyn uwch bydd eich cais yn cael ei wrthod..

Cam 5

Os yw eich incwm o fewn y terfyn byddwn yn cyfrifo'ch cyfalaf gwario (yn cynnwys unrhyw ecwiti ar eich cartref dros y terfyn o £100,000). Bydd eich diddordeb mewn, neu gyfran o, unrhyw asedau sy'n rhan o'r anghydfod yn cael eu diystyru, hyd at gyfanswm o £100,000 (gweler nodiadau C1 - C8). Os asesir fod eich cyfalaf gwario yn uwch na'r terfyn uwch, bydd eich cais yn cael ei wrthod.

Cam 6

Os aseswyd fod eich incwm gwario a'ch cyfalaf gwario yn is na'r terfynau perthnasol, fe all y bydd yn ofynnol i chi dalu cyfraniadau o naill ai'r incwm neu'r cyfalaf (neu'r ddau). Mae cyfraniadau incwm yn daladwy yn fisol, mae cyfraniadau cyfalaf yn daladwy ar unwaith fel cyfandaliad. Os yw cyfraniad yn daladwy, anfonir i chi gynnig am gymorth cyfreithiol fydd yn nodi symiau'r cyfraniadau. Os yw eich incwm a'ch cyfalaf gwario yn is na therfyn penodol, ni fydd yn ofynnol i chi dalu cyfraniad. Gellir gweld manylion terfynau presennol incwm a chyfalaf ar ein gwefan:

<https://www.gov.uk/guidance/civil-legal-aid-means-testing>

Diwedd y ddogfen